

CYNGOR TREF FRENHINOL CAERNARFON

COFNODION CYFARFOD Y CYNGOR LLAWN, 6ed AWST 2020 - CYFARFOD RHITHIOL

Yn bresennol: Ei Deilyngdod Y Maer – Cynghorydd W.Tudor Owen
(Cadeirydd)

Y Cynghorwyr W.L.Davies, A.Hopcyn, D.L.Jones, C.Larsen, E.Lovgreen,
B.Owen, S.Sage, I.C.Thomas, R. Thomas, C.Williams

1. Ymddiheuriadau

Y Cynghorwyr E.R.Hughes, W.R.Owen, J.W.Parry, K.Richards,
M.Sarnacki

2. Datgan Buddiant Personol

Dim.

3. Eitemau Brys (Cadeirydd / Clerc)

Dim.

4. Effaith yr argyfwng Covid-19 ar fusnesau Caernarfon – Rheoliadau Ariannol

Gwnaethpwyd nifer o benderfyniadau yn y cyfarfod o'r Cyngor ar y 23ain o
Orffennaf er mwyn gwella'r dref, yn sgîl yr argyfwng Covid-19.

Er mwyn sicrhau tryloywder yn y broses, gofynnwyd am farn Uned
Archwilio Cyngor Gwynedd. Yn yr ymateb nodwyd fel a ganlyn:

- (1) Mai'r ffordd gorau ymlaen fyddai defnyddio rheoliad ariannol 11.1, gan fynegi bod y gwaith angen ei wneud ar frys / argyfwng.
- (2) Er mwyn sicrhau tryloywder yn y broses, y dylid hepgor y rheoliadau ariannol sy'n berthnasol i gytundebau i alluogi'r Cyngor symud ymlaen gyda'r gwaith ond bydd yn angenrheidiol bod y rhesymeg dros wneud hynny'n cael ei ymgorffori mewn argymhelliad i'r Cyngor fel y mynegir yn rheol ariannol 11.1(c), sef:

“11.1(c) Pan wneir ceisiadau i ollwng rheoliadau ariannol ar gyfer contractau er mwyn sicrhau y gellir cytuno pris heb gystadleuaeth, bydd y rheswm yn cael ei gynnwys mewn argymhelliad i'r Cyngor.”

Cafwyd trafodaeth ar y gwaith oedd angen ei wneud yn y dref, a'r angen i'w wneud ar fyrder er enghraifft y “jetwash” a gwaredu gwastraff.

Nododd y Clerc:

- (1) Erbyn hyn fod Cyngor Gwynedd wedi dweud y byddant yn gwneud “jetwash” ar ganol y dref, ac roedd llawer o’r gaith arall yn dibynnu ar hwn.
- (2) Y comisiynwyd cwmni i gynorthwyo’r Swyddog Cynnal a Chadw. Roedd y cymorth yn golygu 2 weithiwr ychwanegol (6 awr yr un) yn rhoi cymorth am 6 wythnos o’r 7fed o Awst.
- (3) Y derbyniwyd cwôt gan yr un cwmni i wneud gwaith amrywiol yn y dref. Roedd un cwôt yn golygu gwaith ar lefel eithaf sylfaenol a’r cwôt arall yn ymwneud â gwaith ar lefel uwch.
- (4) Ei fod wedi anfon ffurflen at aelodau yn gofyn am eu blaenoriaethau o ran gwaith oedd angen ei wneud, ac roedd wedi derbyn dau ymateb hyd yma.

Penderfynwyd:

- (1) Yn unol â Rheoliad Ariannol 11.1. (c), sef “(c) Pan wneir ceisiadau i ollwng rheoliadau ariannol ar gyfer contractau er mwyn sicrhau y gellir cytuno pris heb gystadleuaeth, bydd y rheswm yn cael ei gynnwys mewn argymhelliad i’r Cyngor”, y dylid hepgor y rheoliadau ariannol, sydd yn berthnasol i gytundebau, i alluogi’r Cyngor symud ymlaen gyda’r gwaith a benderfynwyd arno yn y cyfarfod o’r Cyngor Llawn ar y 23ain o Orffennaf, gan fod y gwaith angen cael ei wneud ar fyrder.**
- (2) Bod unrhyw waith yn cael ei wneud cyn gynted ag y bo’n ymarferol bosib, gan gychwyn efo’r “jetwash”.**
- (3) Y dylid gofyn am gadarnhad Cyngor Gwynedd o’r union fwriad o ran y “jetwash” erbyn amser cinio dydd Llun, y 10fed o Awst.**

Gorffennodd y cyfarfod am 6.30 p.m.

Arwyddwyd

Dyddiad